**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithwir ar Zoom ddydd Mawrth, 25 Tachwedd 2025**

Cyhoeddir y rhybudd hwn am 5:00pm dydd Gwener, 28 Tachwedd 2025. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00yp ddydd Gwener, 5 Rhagfyr 2025. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd cais dilys i'w galw i mewn) ddydd Llun, 8 Rhagfyr 2025.

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Gary Pritchard (Arweinydd) (Cadeirydd), Neville Evans, Carwyn Jones, Dyfed Wyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Ieuan Williams a Robin Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Jeff Evans, Glyn Haynes, Kenneth Hughes, R. Llewelyn Jones, Derek Owen

**Ymddiheuriadau:** Dim

(10:00yb - 11:20yb)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2025 yn gywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod rhwng Rhagfyr 2025 a Gorffennaf 2026, gyda'r** |

| | |
|---|---|
| | **newidiadau y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaen gynllunio** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Diwygio'r Cyfansoddiad - Rhoi Cymeradwyaeth Derfynol i Gyfrifon Blynyddol y Cyngor**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn cymeradwyo'r newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn rhoi'r hawl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Cyfrifon Blynyddol y Cyngor yn derfynol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Mynegi barn am y newid arfaethedig yn y Cyfansoddiad.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Y Cyngor Llawn sydd yn penderfynu ar unrhyw newidiadau yn y Cyfansoddiad.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 2, 2025/26**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd derbyn adroddiad monitro'r cerdyn sgorio ar gyfer Chwarter 2 2025/26 a nodi'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth a'r** |

| | |
|---|---|
| | **gwasanaeth perthnasol yn eu harchwilio er mwyn eu rheoli a sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol. Roedd y meysydd hyn yn ymwneud â Thai (ail-osod eiddo gwag a gwireddu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl), yr Economi (nifer y contractau angori blynyddol ac archwilio busnesau risg uchel i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd), Newid Hinsawdd (ailgylchu gwastraff o'r cartref) ac Iechyd Cyngor Cyfan (ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn unol â'r amserlen).** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn adnabod a delio â meysydd sy'n tanberfformio o fewn y Cyngor.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Adroddiad Hunanasesiad, Perfformiad a Llesiant 2024/25**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd mabwysiadu'r Adroddiad Hunanasesiad a Pherfformiad (Llesiant) 2024/25.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Monitro Cyllideb Refeniw - Chwarter 2, 2025/26**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr |

| | |
|---|---|
| | Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br><br>• **Nodi'r sefyllfa a nodir yn Atodiadau A, B ac C yr adroddiad mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2025/26.**<br>• **Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2025/26, y manylir arnynt yn Atodiad CH.**<br>• **Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2025/26 yn Atodiadau D a DD.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2025/26** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Monitro Cyllideb Gyfalaf - Chwarter 2, 2025/26**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br><br>• **Nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2025/26 yn ystod chwarter 2.**<br>• **Cymeradwyo'r cynlluniau ychwanegol gwerth £3.483m a ychwanegwyd i'r rhaglen gyfalaf, a newidiadau mewn cyllid, yn unol ag Atodiad C, fydd yn rhoi cyllideb gyfalaf ddiwygiedig o £59.669m ar gyfer 2025/26.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2025/26** |

| | |
|---|---|
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai - Chwarter 2, 2025/26**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi'r canlynol -**<br>• **Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 2 2025/26.**<br>• **Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2025/26.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer 2025/26** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2026/27**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br>• **Nodi cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, fydd yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw i Gyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ariannol 2026/27, sef 31,705.67 (Rhan E6 - Atodiad A i'r adroddiad).**<br>• **Cymeradwyo'r cyfrifiad at ddiben** |

| | |
|---|---|
| | **pennu Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 am y cyfan o'r ardal ac am rannau ohoni am y flwyddyn 2026/27 (Rhan E5 - Atodiad A i'r adroddiad)**<br>• **Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y cawsant eu diwygio gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) (Diwygiad) 2016, y rhain yw'r cyfansymiau y mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi eu cyfrif fel Sylfaen y Dreth am 2026/27, sef 33,887.44, ac am y rhannau hynny o'r ardal mae fel a restrir yn yr adroddiad o dan argymhelliad 3.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Caniatáu i'r Cyngor Llawn bennu lefel y Dreth Gyngor er mwyn cyflawni'r gyllideb a gymeradwyir ar gyfer 2026/27.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 Rhaglen Cysylltu â Gwaith 2025-2030**<br>Adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br>• **Nodi cynnydd hyd yma o ran datblygu cynllun cyflawni rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer y Rhaglen Cysylltu â Gwaith 2025-2030.**<br>• **Cytuno i wneud Cytundeb Cydweithio gyda Chyngor Sir Ddinbych sy'n gweithredu fel corff arweiniol ar gyfer Gogledd Cymru.** |

| | |
|---|---|
| | • **Cytuno i gyflwyno rhan Ynys Môn o Gynllun Cyflawni Gogledd Cymru i Gyngor Sir Ddinbych er mwyn ei gyflwyno wedyn i'r Adran Gwaith a Phensiynau.**<br>• **Dirprwyo hawl i'r Pennaeth Gwasanaeth a'r Swyddog Adran 151 dderbyn y cytundeb cyllido Cysylltu â Gwaith.**<br>• **Gwneud cytundeb grant gyda Môn CF Ltd i wireddu'r Rhaglen Cysylltu â Gwaith ar ran yr Awdurdod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo cymryd rhan yn y gwaith o ddarparu'r Rhaglen Cysylltu â Gwaith ar Ynys Môn trwy gytundeb gyda Chyngor Sir Ddinbych a Môn CF** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **14 Derbyniad o Gynigion Grant Cyllid Uchelgais Gogledd Cymru**<br>Adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) |
| PENDERFYNIAD | **Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Deilydd Portffolio Datblygu Economaidd, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Adran 151, dderbyn y cynnig o £10.474m o arian grant gan Uchelgais Gogledd Cymru.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Derbyn cynnig o arian grant gan Uchelgais Gogledd Cymru er mwyn cyflawni'r gwaith a ddisgrifiwyd.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |

| | |
|---|---|
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **15 Ardoll Ymwelwyr**<br>Adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd gohirio'r eitem a'i hystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cadarnhau cyngor allanol ynglŷn ag amseru'r asesiad effaith statudol sy'n ofynnol er mwyn gwneud penderfyniad.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |